System wybodaeth genedlaethol yw rhaglen LANDMAP (Landscape Assessment and Decision Making Process/ Asesu Tirwedd a Phroses Gwneud Penderfyniadau) a ddyfeisiwyd yn arbennig fel y gellir casglu gwybodaeth am y tirwedd, ei drefnu a'i werthuso i greu set ddata sy'n gyson ar lefel genedlaethol (CCGC, 2006). Rhaglen bartneriaeth ydyw rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru â'r holl Awdurdodau Unedol a Pharciau Cenedlaethol Cymru. Fe'i datblygwyd i ddarparu ffynhonnell wybodaeth sy'n rhoi ystyriaeth gyfartal i holl agweddau'r tirwedd i'w ddefnyddio yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â thirwedd cynaliadwy (CCGC, 2006).

Mae gwybodaeth LANDMAP yn ganolbwynt sylw ar rannau unigol o'r tirwedd sydd fwyaf pwysig ac sydd angen cynaladwyedd, ond mewn cyd-destun sy'n rhoi gwerth ar y cyffredin yn ogystal â'r ysblennydd er mwyn cynnal treftadaeth tirweddol amrywiol Cymru (CCGC, 2006). Mae'r wybodaeth graidd yn cynnwys pum set ddata sydd â chydberthynas ofodol, sy'n cofnodi gwybodaeth am dirwedd daearegol, cynefinoedd tirwedd, tirwedd hanesyddol, gweledol a synhwyraidd a'r tirwedd ddiwylliannol. Casglwyd y data gan arbenigwyr Agwedd (yn fewnol i awdurdod neu ymgynghorwyr allanol) sy'n hel y data am bob agwedd a werthuswyd, mewn dull a ddiffinnir gan fethodoleg LANDMAP (CCGC, 2003).

Mae pump gwahanol Agwedd wedi'u gwerthuso o fewn rhaglen LANDMAP sef Gweledol a Synhwyraidd, Tirweddau Daearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Tirweddau Hanesyddol a Thirweddau Diwylliannol. Gan fod LANDMAP yn rhaglen bartneriaeth, mae'r graddau y mae data ar gael ar gyfer pob agwedd wahanol yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdod lleol. Mae Biosffer Dyfi yn delio â thri awdurdod gwahanol i'r pwrpas hwn: Ceredigion, Powys a Pharc Cenedlaethol Eryri. O fewn dalgylch yr Afon Ddyfi ei hun, mae'r holl ddata wedi cael ei gasglu ar wahân i Dirwedd Hanesyddol yng Ngheredigion. Fodd bynnag, nid yw data ar gyfer Cynefinoedd Tirweddau a Thirweddau Diwylliannol wedi'i gasglu ar gyfer y gweddill o ogledd Ceredigion (i'r de o ddalgylch yr afon) hyd yn hyn.

Cyflwynir mapiau sy'n ymwneud â thair o'r Agweddau (Tirweddau Gweledol a Synhwyraidd, Cynefinoedd Tirwedd a Thirweddau Diwylliannol) fel Atodiadau i'r Ffurflen Enwebu hon. Mae gan bob Agwedd ddau fap: Dosbarthiad (yn mapio dosbarthiadau amrywiol yr Agwedd) a Gwerthuso (gwerthuso arwyddocâd yr Agwedd hon trwy'r ardal).

Nid yw'r map 'Tirwedd Ddiwylliannol' yn egluro'i hunan. Mae'r Agwedd hon yn ystyried y berthynas sy'n bodoli rhwng pobl a lleoedd; sut y mae pobl wedi rhoi ystyr i leoedd, sut mae'r tirwedd wedi dylanwadu ar eu gweithredoedd a sut mae eu gweithredoedd wedi dylanwadu ar y tirwedd. Gellir dod o hyd i'r fethodoleg ar gyfer yr holl Agweddau ar http://landmap.ccw.gov.uk/methodology.